# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 15fed o IONAWR 2024** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. Margaret Thomas-Cadeirydd**

Cyng. R. Alwyn Parry
Cyng. John Lee
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Non W. Parry
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Terry Jones

**HEFYD YN BRESENNOL :**
**Cynghorydd Sir :** Dylan W. Rees
Nicola Roberts
Non Dafydd (Ymuno trwy gyfrwng TEAMS)
**Heddlu** : PCSO A. Williams
**Clerc** : H. Rhys Parry
**Cymhorthydd :** Ms. Linda Powell

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

**Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod a dymuno Blwyddyn Newydd Dda**

**23/217** **Ymddiheuriadau** : Cyng. Henry D. Jones, Cyng. Gwenan Ll. Evans, Cyng. Ieuan G. Davies, Cyng. Eleri Lloyd Burns, Cynghorydd Sir Geraint Bebb

**23/218** **Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**23/219** **Heddlu Gogledd Cymru :** PCSO Alison Williams yn bresennol ac yn rhoi adborth i'r Aelodau, fel a ganlyn :

1 **Adeilad Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa, Llangefni :** Yn dilyn y tan Nos Sul, 17eg o Ragfyr 2023, mae pedwar llanc ifanc wedi'u harestio ac ymholiadau'n parhau. Swyddog yr Heddlu ddim yn gallu manylu ar hyn o bryd a bydd yn cysylltu ymhellach pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

2 **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o gwmpas y Dref :** Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw fod problemau difrifol cyffuriau yn ardal Lon Yr Efail, yn mynd ymlaen ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. PCSO yn ymateb fod yr Heddlu yn ymwybodol o hyn ac oherwydd prinder Swyddogion Heddlu, nid ydyw'n bosib patrolio'r ardal yn rheolaidd. Y Swyddog yn annog fod yn bwysig i'r cyhoedd gysylltu â llinell 101 neu "Crimestoppers" i adrodd am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae posib gwneud hyn Ar-lein hefyd.

3 **Materion Priffyrdd :** Cyng. John Lee yn holi am farciau ffyrdd ar hyd Ffordd Glandwr yn arwain at y gyffordd. Clerc yn ymateb fod Swyddog o Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn, wedi esbonio yn y gorffennol mai'r rheswm nad ydyw'r ffordd wedi cael ei rannu'r ddwy "lane" ydyw fod yn rhaid i gerbydau mawr ddefnyddio ochor dde'r ffordd er mwyn gwneud y tro i'r chwith. PCSO yn datgan fod hyn ddim yn fater i'r Heddlu. **Derbyn**
Cyng. Non Parry yn pryderu fod dim defnydd yn cael eu gwneud o'r groesfan cerddwyr ar Ffordd Glandwr. Dim trafodaeth bellach

***PARHAD 23/219***

4 Cyng. J. Huw Owen yn tynnu sylw at balmentydd llithrig yn ardal Stryd y Bont a mannau eraill o'r dref. Clerc yn ymateb fod Cyng. Christine Roberts wedi tynnu hyn i sylw Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ac wedi derbyn ymateb y datgan fod Awdurdod Priffyrdd y Cyngor Sir yn gweithio ar brosiect i lanhau ac adfer cyflwr palmentydd canol y dref. Cyng. Nicola Roberts yn ychwanegu for cynllun adnewyddu ar y gweill pan fydd cyllideb ar gael. **Derbyn**

**23/220 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 13.11.2023**

Cyng. Non W. Parry yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**23/221 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 13.11.2023 :**

1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen a Chyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.
Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw at **Eitem 23/188.1** o'r Cofnodion uchod - **Cylchfan A5114.** Cyng. Lewis a'r Cadeirydd yn ddiolchgar iawn fod gwaith cynnal a chadw erbyn hyn wedi eu gwneud ar y Gylchfan, yn ystod y misoedd diwethaf. Cyng. Lewis yn holi beth fydd y cynlluniau ar gyfer gwaith tacluso yn ystod y flwyddyn nesaf. Dim trafodaeth bellach.

**23/222 Cynllunio :**

**I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 13.11.2023 :**

Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw at y frawddeg yn datgan fod y "Clerc yn cynnig fod Cyng. Richard Parry yn cael ei ethol fel Cadeirydd".. Clerc yn esbonio, oherwydd bod Cyng. Davies wedi ymddiswyddo ar y noson, fod Cyng. Richard Parry yn Cadeirio'r Cyfarfod. Clerc yn datgan nad oes ganddo unrhyw awdurdod i ethol Cadeirydd, a bod y geiriad anghywir wedi ei ddefnyddio yn y Cofnodion. Yn Dilyn o'r uchod **PENDERFYNWYD** diwygio'r Cofnodion yn unol â'r uchod a'i derbyn fel Cofnodion cywir. **Derbyn**

**Cais : FPL/2023/181 : Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa, Llangefni -** Clerc yn cadarnhau fod y cais wedi ei ail-gyflwyno'r un fath ag o'r blaen a bod sylwadau Aelodau'r Pwyllgor ddim wedi newid. **Derbyn**

**23/223 I Dderbyn Argymhellion Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 21.11.2023 :**
**Codwyd yr Eitemau canlynol o'r Cofnodion uchod :**

1 **Eitem 23/204.1 Sied Amaethyddol :** Cyng. Victor Hughes yn holi os oes mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â'r sied sydd wedi ei hadeiladu yn agos at safle'r fynwent Newydd. Clerc yn ymateb fod Mr. Hughes, Asiant, wedi ysgrifennu at Adran Cynllunio'r Cyngor Sir yn gofyn am y telerau a.y.b. Disgwyl ymateb. **Derbyn**

2 **Eitem 23/208 Cae Criced :** Cyng. Dylan Rees yn holi am unrhyw ddiweddariad. Clerc yn adrodd fod y Cyfreithiwr yn disgwyl am Dystysgrifau Marwolaeth yr Ymddiriedolwyr cyn cwblhau'r Trosglwyddiad. **Derbyn**

Yn Dilyn yr uchod, Cyng. Arwel Môn Hughes yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio I dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**23/224 I Dderbyn Argymhellion Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 04.12.2023 :**
**Codwyd yr Eitem ganlynol o'r Cofnodion uchod :**

1 **Eitem 23/214 - Proses Darpariaeth a Chynllunio'r Precept/Cyllideb am y Flwyddyn 2024 - 2025 :** Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan fod dim digon o wybodaeth wedi ei dderbyn cyn gwneud penderfyniad ar ffigwr terfynol y Precept. Cadeirydd yn trosglwyddo'r Eitem yma i'r Clerc esbonio'r ffigyrau. Clerc yn dosbarthu Rhestr o ffigyrau'r Precept Drafft 2024-2025 i'w arolygu gan yr Aelodau a'u harwain trwy grynodeb o gynllun gwariant y Cyngor o Ebrill 2024. Clerc yn cadarnhau fod Amcangyfrif Nifer y Tai wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys

***PARHAD 23/224***

Môn ac yn rhedeg trwy'r cynnydd i bob eiddo, sef 0.42c yr wythnos bob eiddo. Band D. Wrth edrych trwy'r ddogfen, mae ymdrech wedi'i wneud i gadw costau i lawr. Oherwydd chwyddiant a chostau ychwanegol, megis Hyfforddiant, Adnewyddu Offer Chwarae o dan gynllun gwariant o £12,000 y flwyddyn, yn Dilyn trafodaeth, Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio I dderbyn y ffigyrau uchod ynghyd a derbyn y Cofnodion fel rhai cywir
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** codi'r Precept 0.42c yr wythnos ar gyfer bob eiddo. (£315,000.00 ) ?????**PENDERFYNWYD YMHELLACH** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir**.**

**23/225 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon gan y Maer :**

1 **Ymweld at Ystâd Erwau'r Coed - 21.11.2023 :** Dirprwy Faer, Cyng. Terry Jones wedi mynychu'r safle ac ymweld ag un fflat ac un tŷ, i gyd yn ynni effeithlon ac wedi'i hadeiladu i safon uchel iawn gan y Gymdeithas Tai. Gwaith ar y gweill i gwblhau nifer o dai ar yr Ystâd. Aelodau yn holi os oes darpariaeth ar gyfer lle chwarae i blant yn rhan o'r cynlluniau uchod. Cyng. Nicola Roberts yn esbonio'r drefn o greu lle chwarae ynghlwm a'r Ceisiadau yn y lle cyntaf, a sut mae'r arian yn cael eu rhannu tuag at lefydd chwarae. Cyng. Roberts yn rhoi gwybod fod swm o arian ar gael a sut buasai'r Cyngor Tref yn gallu gwneud cais amdano. Aelodau yn cytuno'n unfrydol i symud ymlaen ar hyn.
Cyng. Dylan Rees yn Datgan Diddordeb personol yn y Parc Sglefrio ac ………………………

Cadeirydd yn diolch i Aelodau'r Cyngor Sir am y wybodaeth.

2 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen - 01.12.2023** : Cadeirydd yn adlewyrchu ar noson lwyddiannus iawn ac yn diolch I Staff y Cyngor Tref, Menter Môn a Chlwb Rotary Llangefni, am eu cyfraniad tuag at noson arbennig. Cyng. Nicola Roberts yn datgan fod llawer o ganmoliaeth am y goleuadau Nadolig Newydd eleni.

3 **Canolfan Glanhwfa – Cinio Nadolig – 04.12.2023 :** Cadeirydd wedi diolch I Mr. Ieuan Wyn Jones am y gwahoddiad ac wedi mwynhau'r Achlysur.

4 **Clwb Rotary Llangefni - Gwasanaeth "Tree of Lights" - 15.12.2023 :** Cadeirydd yn canmol y Gwasanaeth ac yn diolch I Glwb Rotary am eu holl Waith yn trefnu'r Achlysur. Elw'r noson yn mynd tuag at Hosbis Dewi Sant.

5 **Cystadleuaeth Addurno Ffenestri Nadolig :** Cadeirydd yn cyflwyno'r enillwyr fel a ganlyn:

- 1af Siop Cain;
- 2ail(Cyd) Siop Elenna & Creative Hair Salon
- 3ydd Good Life Therapies.

**23/226 Materion yn Codi gan Aelodau : Dim**

**23/227 Adroddiad y Clerc :**
**Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:**

1 **Y Fynwent, Lon Newydd (To'r Capel) :** Yn dilyn argymhellion Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 20.11.2023 i dderbyn arweiniad gan Bensaer neu Ymgynghorydd a chael cyngor proffesiynol cyn symud ymlaen i atgyweirio'r to. Cyng. Victor Hughes yn gofyn am ddiweddariad ac yn datgan bod angen Syrfëwr I roi barn ar waith arbenigol fel hyn. Clerc yn esbonio fod y cam yma ddim wedi ei gwblhau oherwydd ei fod yn disgwyl am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Yn dilyn trafodaeth, Cyng. John Lee yn cynnig ymddiried yn y Clerc i apwyntio Syrfëwr i edrych ar y Gwaith uchod. **PENDERFYNWYD** symud ymlaen yn unol â'r uchod.

2 **Y Fynwent Newydd - Tir Penlan :** Tri Thwll Turio wedi eu gosod ar y safle. Monitorio a data profion yn cael eu casglu ar gychwyn Mis Rhagfyr 2023. Prif Dirmon y Cyngor Tref wedi derbyn 4 mesur profion a'r canlyniadau i gyd yn berffaith sych.

3 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen 01.12.2023 –** Wedi ei drafod o dan Eitem 23/225.2 o'r Rhaglen.

**23/228 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :**
**Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :**

1 **Cyfarfod Grŵp Llandrillo-Menai 30.11.2023 - Cofnodion Cyfarfod 18.04.2023 :** Wedi eu hanfon at yr Aelodau - er gwybodaeth. Cyng. Richard Parry ydyw Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Grŵp a dim wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach. **Derbyn**

2 **Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni 05.12.2023 - Cofnodion Cyfarfod 03.10.2023 :** Wedi eu hanfon at yr Aelodau - er gwybodaeth. Dyddiad y Cyfarfod nesaf 6ed o Chwefror 2023.

**23/229 Cyllid :**

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2023 :** Mantolen Ariannol Rhagfyr 2023 yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau. Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa I Archwilio Anfonebau Misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2023 o flaen y Cyfarfod.
Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw at y canlynol :
**Mis Tachwedd 2023 :Taliad Cyflogaeth** Mis Tachwedd. Clerc yn esbonio ei fod yn ad-daliad codiad cyflogaeth genedlaethol Ebrill 2023. Dim trafodaeth bellach.
**Clwb Bowlio :** Awgrymu rhoi cais ymlaen i Gyngor Sir Ynys Môn am ad-daliad ar y dreth**.** Clerc yn adrodd fod hyn wedi ei wneud llynedd ac nid oedd yn llwyddiannus. Ystyried ceisio eto eleni am ad-daliad. **Derbyn**
**Mis Rhagfyr 2023 :** Ad-daliad Trydan wedi ei dderbyn gan y Clwb Pêl Droed 13.12.2023.
Cyng. John Lee yn holi am daliad siec wedi ei dderbyn gan M. Rowlands, Ymgymerwr. Swyddog Gweinyddol yn adrodd fod y siec am dri achlysur ar wahân, gyda'r cyfanswm yn arddangos ar un siec. **Derbyn**
Yn Dilyn yr uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio I dderbyn y Mantolau Ariannol uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolau Mis Tachwedd a Mis Rhagfyr 2023.

2 **Precept 2024-2025 : I Ystyried derbyn y cynnydd am y flwyddyn 2024-2025 :** Cadeirydd yn cadarnhau fod Y Precept wedi ei drafod o dan Eitem 23/224 o'r Rhaglen a'r penderfyniad wedi ei gofnodi. **Derbyn**

**23/230 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**
**Cynghorwyr Sir yn adrodd ar y canlynol :**

- Pwyllgor Sgrwtini y Cyngor Sir yn edrych ar Gyllideb Refeniw cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2024-2025 Dydd Mawrth 16.01.2024 a chwyddiant mewn costau;
- 'r cyllid gan Lywodraeth Cymru'n (2.67%) yn ddigon i gwrdd â chostau'r Cyngor;
- Cynnydd Treth Cyngor ar ail gartrefi o 75% I 100%;
- Cynnydd o 9.8%yn Dreth y Cyngor ac yn parhau i fod yr isaf yng Ngogledd Cymru;
- Tan yn Neuadd y Dref - Diolch yn fawr i'r 7 Peiriannau Tan a'r Gwasanaethau Tan leol wedi diffod y tan ac wedi gwarchod yr adeiladau cyfagos;
- Ymgynghoriad ail-strwythuro'r Gwasanaeth Tan / Gorsaf Llangefni yn parhau ar gau yn Dilyn pleidlais ??;
- Cais Cynllunio - Eiddo tu cefn I Ganolfan Ebenezer-Cyng. Non Dafydd wedi cysylltu gyda'r perchennog ??;
- Lifft yn Fflatiau Plas Tudur wedi cael ei drwsio;
- Gwaith ar y gweill i wella'r palmentydd o gwmpas y dref;
- Cyn safle Plas Penlan wedi ei wirio gan Swyddogion y Cyngor Sir a dim byd i boeni.
  - *Cadeirydd yn diolch i'r Cynghorydd Sir am eu mewnbwn*

Cyng. J. Egryn Lewis yn holi pam nad oedd y cysylltiad i'r Teledu Smart yn gweithio. Clerc yn esbonio fod datgysylltiad wedi bod yn ddiweddar ac ers hynny mae'r teledu yn camweithio. Clerc am gysylltu gydag Adran IT Cwmni OES I ddatrys y broblem. **Derbyn**

**23/231 Gohebiaeth a Materion Newydd :**

1 **14.11.2023 : Llywodraeth Cymru : Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972 –** Er gwybodaeth – Dim Trafodaeth.

2 **27.11.2023 : IRPW - Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024 -** Dogfen Drafft tar gael trwy'r Swyddfa - Dim Trafodaeth.

**23/232 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :**

**Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Mis Tachwedd 2023 :**

1 **Un Llais Cymru : Derbyn**

2 **Materion Eraill : Derbyn**

**23/233 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Cadeirydd :**

1 **Ffurflen I Ddatgan Diddordeb Ariannol neu Ddiddordeb Ymgofrestredig -** Dim Trafodaeth

2 **Adeilad Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa :** Cadeirydd yn pryderu am gyflwr yr Adeilad ac yn ddiolchgar iawn i'r Gwasanaeth Tan a'r Heddlu am eu holl waith yn y cyfnod truenus yma.

**23/234 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :**

1 **Cyfarfod Llawn Nos Lun 12fed o Chwefror 2024.**

***CYNG. MARGARET THOMAS***
***CADEIRYDD***